Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# HYSBYSIAD YNGHYLCH GWELLIANNAU
# NOTICE OF AMENDMENTS

## Cyflwynwyd ar 29 Mai 2013
## Tabled on 29 May 2013

## Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru)
## Recovery of Medical Costs for Asbestos Diseases (Wales) Bill

**Darren Millar** **4**

Section 3, page 2, line 24, after 'services' at the second place where it appears, insert '(including, for the avoidance of doubt, palliative care)'.

Adran 3, tudalen 2, llinell 26, ar ôl 'eraill', mewnosoder ''(gan gynnwys, er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, gofal lliniarol)'.

**Darren Millar** **5**

Section 3, page 3, after line 2, insert—

‘( ) From the coming into force of this subsection, services provided by virtue of Part 4 of the 2006 Act (primary medical services) are not excluded services for the purposes of subsection 5, and subsection 6(a) is to be interpreted, from that time onwards, as having been amended accordingly.’.

Adran 3, tudalen 3, ar ôl llinell 2, mewnosoder—

‘( ) Ar ôl i’r is-adran hon ddod i rym, nid yw gwasanaethau a ddarperir yn rhinwedd Rhan 4 o Ddeddf 2006 (gwasanaethau meddygol sylfaenol) yn wasanaethau a eithrir at ddibenion is-adran 5, ac mae is-adran 6(a) i’w dehongli, o’r amser hwnnw ymlaen, fel petai wedi’i diwygio yn unol â hynny.’.

**Darren Millar** **6**

Section 3, page 3, line 3, after ‘services”’, insert ‘but regulations under this subsection may not repeal or otherwise undo the effect of subsection ( )’.

Adran 3, tudalen 3, llinell 3, ar ôl ‘eithrir”’, mewnosoder ‘ond ni chaniateir i reoliadau a wneir o dan yr is-adran hon ddirymu neu ddad-wneud fel arall effaith is-adran ( )’.

**Darren Millar** **7**

Section 5, page 4, after line 5, insert—

‘( ) Welsh Ministers may, in any event, arrange for an additional certificate to be issued following the death of the victim, to cover the cost of relevant Welsh NHS services up to the date of death.’.

Adran 5, tudalen 4, ar ôl llinell 6, mewnosoder—

‘( ) Caiff Gweinidogion Cymru, beth bynnag, drefnu i dystysgrif ychwanegol gael ei ddyroddi yn dilyn marwolaeth y dioddefwr, i dalu costau gwasanaethau perthnasol GIG Cymru hyd at y dyddiad marwolaeth.’.

**Darren Millar** **8**

To insert a new section—

**‘[ ] Suspension of this Act**

Welsh Ministers may, by order, suspend the operation of this Act.’.

Mewnosod adran newydd—

**‘[ ] Atal dros dro y Ddeddf hon**

Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, atal dros dro weithrediad y Ddeddf hon.’.

**Darren Millar** **9**

Section 18, page 11, line 23, leave out 'regulations—' and insert—
'—

( ) orders under section [ ],'.

Adran 18, tudalen 11, llinell 25, hepgorer 'rheoliadau canlynol—' a mewnosoder—
'canlynol—

( ) gorchmynion o dan adran [ ],'.

**Darren Millar** **10**

Section 20, page 12, after line 23, insert—

'(3) At least once in each calendar year following the year in which this Act receives Royal Assent, the Welsh Ministers must—

(a) consider whether it is desirable to bring section 3( ) into force under subsection (2), and

(b) report their conclusion, and the reasons for it, to the Assembly as soon as practicable.'.

Adran 20, tudalen 12, ar ôl llinell 25, mewnosoder—

'(3) Rhaid i Weinidogion Cymru, o leiaf unwaith ym mhob blwyddyn galendr yn dilyn y flwyddyn y bydd y Ddeddf hon yn cael Cydsyniad Brenhinol –

(a) ystyried a yw'n ddymunol i ddod ag adran 3 ( ) i rym o dan is-adran (2), a

(b) adrodd ar eu casgliad, a'r rhesymau drosto, i'r Cynulliad cyn gynted ag y bo'n ymarferol.'.